



**PWYLLGOR CYSTADLAETHAU  
NOS FAWRTH, 14 RHAGFYR 2021  
TRWY GYFRWNG ZOOM, 7.00YH**

**COFNODION**

---

**CADEIRYDD:** Miss Sian Healey

**IS-GADEIRYDD:** Miss Sioned Davies

**Hefyd yn Bresennol:**

Sian Healey (Cadeirydd y Pwyllgor), Sioned Davies (Is-gadeirydd y Pwyllgor), Gwyneth Thomas (Trefnydd Sirol Morgannwg), Caryl Hâf Jones (Cadeirydd CFFI Cymru), Sion Evans (Sir Gaerfyrddin), Katie Court (Ex-Officio), Elen Williams (Morgannwg), Manon Williams (Meirionnydd), Emma Powell (Brycheiniog), Eloisa Isaac (Maldwyn), Deryn Evans (Brycheiniog), Gwen Thomas (Eryri), Will Hughes (Ynys Môn), Meinir Owen (Eryri), Hefin Evans (Is-gadeirydd CFFI Cymru), Rhiannon Davies (Ceredigion), Millie Edwards (Maldwyn), Carys Phillips (Sir Benfro), James Nixon (Maesyfed), John James (Maesyfed), Delun Evans (Sir Benfro), Elizabeth Swancott (Maesyfed)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rhianwen Jones (Swyddog Cystadlaethau CFFI Cymru)

**C/32/2022 CROESO A CHYFLWYNIADAU**

Fe wnaeth y Cadeirydd Sian Healey groesawu pawb i gyfarfod yr is-bwyllgor cystadlaethau, a chyn cychwyn, gofynnodd i bawb ar y sgrin gyflwyno eu hunain.

Nododd Siân fod y cyfarfod yn cael ei recordio.

**C/33/2022 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Emma Rees (Brycheiniog), Katie Matthews (Gwent) a Ffion Rees (Sir Gaerfyrddin).

**C/34/2022 CADARNHAU'R COFNODION**

Rhannwyd cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf ar y sgrin a darllenwyd hwy a chadarnhawyd eu bod yn gofnod gwir a chywir.

Cofnodion Hydref 2021 **Cynigydd:** Elen Williams, Morgannwg

**Eilydd:** Deryn Evans, Brycheiniog

Cofnodion Tachwedd 2021 (cyfarfod yn rhoi sylw i'r Wledd o Adloniant)

**Cynigydd:** Deryn Evans, Brycheiniog

**Eilydd:** Manon Williams, Meirionnydd

## **C/35/2022 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau ac nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi o'r ddwy set o gofnodion.

## **C/36/2022 GOHEBIAETH**

Roedd CFFI Cymru wedi cael e-bost gan aelod ynghylch cystadlaethau'r Sioe Rithwir Frenhinol Cymru, yn awgrymu y dylid dyfarnu cardiau safle a thlysau i'r sawl oedd yn llwyddiannus yn Sioe Rithwir Frenhinol Cymru. Nid oedd yr aelod hwn yn credu fod ennill yn Sioe Rithwir Frenhinol Cymru yn llai o gyflawniad a chredai y dylid dyfarnu cardiau safle a thlysau.

Cytunodd y pwyllgor y dylid anfon tystysgrifau at y sawl a fu'n cystadlu mewn cystadlaethau rhithwir ac wyneb yn wyneb dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cynigydd: Katie Court, Morgannwg

Eilydd: Manon Williams, Meirionnydd

**Pwynt Gweithredu 1:** Bydd CFFI Cymru yn anfon tystysgrifau at aelodau oedd yn llwyddiannus yn y cystadlaethau Rhithwir a'r Diwrnod Amaethyddiaeth.

Derbyniodd CFFI Cymru e-bost gan aelod a oedd yn cystadlu yn y gystadleuaeth Wŷn i'r Cigydd yn Ffair Aeaf 2021. Mynegodd yr aelod rywfaint o bryderon ynghylch y gystadleuaeth, gan nodi enghreifftiau lle'r oedd hi'n credu na chadwyd at y rheolau.

Diweddarodd Siân Healey y pwyllgor ynghylch pob pwynt a wnaed, ac eglurodd y mater a godwyd yn y Ffair Aeaf yn wreiddiol, sef tocio wŷn. Nodwyd y gofynnwyd i 4 arbenigwr a oedd unrhyw un o'r wŷn wedi cael eu tocio neu beidio - cytunai'r 4 arbenigwr fod rhai wedi cael eu tocio, fodd bynnag, fe wnaeth y swyddogion hefyd roi'r dewis i'r beirniad wrthdroi'r penderfyniad, ac ni wnaeth.

Fe wnaeth Siân hefyd hysbysu'r pwyllgor na wnaeth swyddog ymweld â'r cystadleuwyr ym mis Hydref (fel y nodir yn y rheolau) oherwydd COVID-19. Fe wnaeth Rhianwen anfon e-bost at yr holl gystadleuwyr ynghylch hyn ar ddechrau Hydref.

Fe wnaeth y pwyllgor drafod y pwyntiau a godwyd a chytuno y dylai Siân lunio llythyr i ymateb i'r aelod hon. Bydd Siân hefyd yn cysylltu â stiwardiaid y gystadleuaeth i ofyn a oedd ganddynt unrhyw sylwadau ynghylch rheol 28 (y dylid tywysu wŷn â phenffrwyng).

Nododd Siân fod Rhianwen wedi cynhyrchu holiadur ar gyfer yr holl gystadleuwyr yn y cystadlaethau Wŷn i'r Cigydd a Bïff. Roedd y pwyllgor yn fodlon i'r holiadur hwn gael ei anfon at gystadleuwyr.

**Pwynt Gweithredu 2:** Bydd y Cadeirydd yn llunio llythyr i ymateb i'r aelod ynghylch y Gystadleuaeth Wŷn i'r Cigydd.

**Pwynt Gweithredu 3:** Bydd CFFI Cymru yn anfon holiaduron at gystadleuwyr y cystadlaethau Wŷn i'r Cigydd a Gwartheg Bïff Ifanc i gael adborth ynghylch y cystadlaethau.

## **C/37/2022 I ADOLYGU DIGWYDDIADAU DIWEDDAR**

1. Eisteddfod – 21 Tachwedd 2021

Rhannwyd yr adroddiad ynghylch y digwyddiad ar y sgrin fel y gallai holl aelodau'r pwyllgor ei weld.

Gofynnodd Siân i'r pwyllgor am adborth pellach o'r siroedd.

Nododd Ceredigion ei bod hi'n Eisteddfod wedi'i threfnu'n dda. Fe wnaeth aelodau Ceredigion sylwi ar y sŵn yng nghefn y llwyfan, a nodwyd fod rhai unigolion yn cael trafferth canolbwytio ar y llwyfan yn sgil y sŵn. Nododd Ceredigion fod y llwyfan yn fychan iawn, yn enwedig ar gyfer cystadleuaeth y meimio, a bod y piano yn cymryd lle gwerthfawr. Awgrymwyd y dylid anfon manylion maint y llwyfan at bawb cyn yr Eisteddfod. Nododd Ceredigion hefyd fod sawl un yn credu fod prisiau'r tocynnau (£15) yn ddrud.

Ategodd Sir Benfro sylwadau Ceredigion. Fe wnaethant longyfarch Brycheiniog am ddiwrnod llwyddiannus. Nodwyd nad oedd y gynulleidfa yn cadw at y system unffordd yn y pafiliwn.

Nododd Brycheiniog eu bod yn hapus iawn â'r digwyddiad a diolchwyd i David Price a phwyllgor yr Eisteddfod am eu holl waith caled. Nododd Deryn hefyd ei fod yn un o stiwardiaid y drysau ac roedd hi'n siomedig gweld pobl ddim yn cadw at ganllawiau COVID ac yn bob yn anghwrtais â'r stiwardiaid.

Nododd Maldwyn fod y digwyddiad wedi'i drefnu'n dda ac yn effeithlon, ac roedd popeth yn rhwydd ac yn hawdd i'w ddilyn.

Cytunodd Meirionnydd â sylwadau'r siroedd blaenorol.

Gofynnodd Eryri am gael sicrhau fod rheolau'r cystadlaethau yn gliriach y flwyddyn nesaf a nodi beth sy'n cael ei ystyried yn adloniant ysgafn.

Llongyfarchodd Maesyfed bawb ar ddiwrnod llwyddiannus.

Nid oedd gan Ynys Môn unrhyw sylwadau ychwanegol, ac roeddent yn hapus â'r diwrnod.

Roedd Sir Gaerfyrddin yn hapus â'r Eisteddfod. Nodwyd fod y sylw yn y Cyfryngau Cymdeithasol yn wych ac roedd pobl gartref yn gallu gweld beth oedd yn digwydd.

Diolchodd Siân i Rhianwen, Anna a'r tîm swyddogion am eu holl waith yn paratoi tuag at yr Eisteddfod.

## 2. Ffair Aeaf – 29-30 Tachwedd 2021

Rhannwyd yr adroddiad ynghylch y digwyddiad ar y sgrin fel y gallai holl aelodau'r pwyllgor ei weld.

Gofynnodd Siân i'r pwyllgor am adborth pellach o'r siroedd.

Nododd Morgannwg fod yr aelodau wedi canfod fod ysgrifennu rhesymau yn y llociau ynysu yn brofiad hynod o oer ac y dylid ailystyried hynny y flwyddyn nesaf. Nid oedd eu haelodau yn deall pam yr oedd angen newid y barnu gwartheg biff i'w gynnal yn hwyr ar y nos Lun o gymharu ag yn gynnar fore Mawrth. Oherwydd amseriad y gystadleuaeth, ni chafwyd y canlyniadau ar y dydd Llun oherwydd gorffennodd yn rhy hwyr. Ni chafodd yr aelodau oedd yn cystadlu docynnau ar gyfer dydd Mawrth y Ffair Aeaf er mwyn mynychu'r seremoni wobrwyo – credai aelodau Morgannwg fod hyn yn annheg ac y dylid mynd i'r afael â hyn yn barod at y flwyddyn nesaf. O ran cyfryngau cymdeithasol, credai Morgannwg ei bod hi'n bwysig fod holl ganlyniadau'r holl gystadlaethau yn cael eu nodi'n llawn fel y gallai pawb a oedd gartref eu gweld ac fel y gallai'r ffederasiynau a'r aelodau eu rhannu.

Cafwyd sylwadau gan Faesyfed ynghylch y gystadleuaeth Tocio Ŵyn. Roedd y canlyniadau yn y cylch yn wahanol i'r daflen sgorau Holwyd a wiriwyd y sgorau cyn cyhoeddi. Awgrymwyd hefyd y byddai adolygu rheolau'r gystadleuaeth Ŵyn i'r Cigydd yn syniad da oherwydd credai rhai bod y gystadleuaeth yn cynnwys gormod o dasgau.

Yn dilyn sylwadau Maesyfed, ymddiheurodd Sian am y camgymeriad yn y gystadleuaeth Tocio Ŵyn a nododd fod y canlyniadau wedi'u cywiro ar Gyfryngau Cymdeithasol ac ar y wefan cyn gynted ag y cawsant eu hysbysu.

Nododd Sir Benfro fod y gystadleuaeth barnu carcasau wedi para pedair awr o'r dechrau i'r diwedd, ond cydnabuwyd y cafwyd anhawster â'r beirniad.

Holodd Ceredigion a ellid nodi pa mor uchel y dylai'r Goeden Nadolig fod yn rheolau'r gystadleuaeth 'Addurno Coeden Nadolig'. Hefyd, yn y gystadleuaeth torri cyw iâr, holwyd a allai'r aelodau gael diagram i ddangos sut ddylai'r arddangosfa orffenedig edrych.

Yn dilyn y sylw ynghylch torri cyw iâr, hysbysodd Sian y pwyllgor fod fideo bellach ar gael fel arddangosiad ar gyfer yr holl aelodau'n cystadlu.

Awgrymodd Brycheiniog y dylid adolygu'r rheolau Tocio Wŷyn oherwydd mae llawer o bobl erbyn hyn yn defnyddio gwelleifiau cneifio i docio eu hŷyn er bod y rheolau cyfredol yn dangos mwy o sgiliau.

Fe wnaeth Gwent hefyd grybwyll fod y llociau ynysu yn oer iawn i'r aelodau fod yn ysgrifennu eu rhesymau ynddynt. Fe wnaethant nodi hefyd, mewn perthynas â'r gystadleuaeth Addurno Coeden Nadolig, fod yn well gan eu haelodau yr hen system lle rhoddid rhif i bob coeden a byddai aelodau yn dewis rhif o het. O ran y gystadleuaeth Wŷyn i'r Cigydd, byddai'n fuddiol sicrhau fod y gystadleuaeth yn llygad y cyhoedd yn hytrach na'i chynnal mewn cornel yn y sied ddefaid.

Awgrymwyd y dylid cydweithio â phwyllgor y Ffair Aeaf i symud y gystadleuaeth Wŷyn i'r Cigydd i ran wahanol o'r sied, neu os na fyddai hynny'n bosibl, y dylid creu baner i geisio annog rhagor o bobl i ddod i weld yr Wŷyn i'r Cigydd.

Nid oedd gan Sir Gaerfyrddin, Meirionnydd, Ynys Môn, Maldwyn ac Eryri unrhyw sylwadau ychwanegol.

Awgrymwyd i'r pwyllgor na ddylid caniatáu i gystadluewyr gyffwrdd â'r gwartheg biff yn y gystadleuaeth barnu biff. Cytunodd y pwyllgor i gynnwys hyn yn y rheolau.

Trafodwyd yr holl bwyntiau uchod a chânt eu hystyried wrth bennu rheolau'r flwyddyn nesaf.

**Pwynt Gweithredu 4:** Bydd CFFI Cymru yn trafod â phwyllgor y Ffair Aeaf ynghylch y gystadleuaeth Wŷyn i'r Cigydd.

## **C/38/2022 CADARNHAU TREFNIADAU**

### **1. Gwledd o Adloniant – 12-13 Mawrth (yn cynnwys trefn ymddangos)**

Fe wnaeth Sian atgoffa'r pwyllgor y bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal ym Mhort Talbot.

Yn ystod cyfarfod diweddar o staff y Ffederasiynau Sirol, gofynnwyd am gael gohirio'r dyddiad cau tan fis Ionawr oherwydd ansicrwydd yn ymwneud â COVID-19. Felly, gofynnodd Sian i'r pwyllgor a fyddent yn fodlon i'r enwau gael eu tynnu o her yng nghyfarfod mis Ionawr – cytunodd y pwyllgor.

### **2. Siarad Cyhoeddus 2022**

Rhannwyd rheolau'r Siarad Cyhoeddus ar y sgrin fel y gallai aelodau'r pwyllgor eu gweld.

Cytunodd y pwyllgor y bydd y diwrnod Siarad Cyhoeddus yn cael ei gynnal ddydd Sul 27 Mawrth oherwydd argaeledd maes y sioe.

Cytunodd y pwyllgor hefyd y dylid gofyn i Brecknock Catering ddarparu lluniaeth ar y diwrnod.

### **3. Diwrnod Gwaith Maes – 23 Ebrill 2022**

Atgoffodd Sian y pwyllgor mai Clwyd yw'r ffederasiwn sy'n cynnal y Diwrnod Gwaith Maes a bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ym Mart Da Byw Rhuthun. Mae'n bosibl y caiff rhai cystadlaethau eu cynnal oddi ar y safle.

Nid oedd unrhyw faterion eraill ynghylch y Diwrnod Gwaith Maes.

### **C/39/2022 CADARNHAU RHEOLAU CYSTADLAETHAU**

#### 1. Cynllun Wrth Gefn – Barnu Stoc

Gofynnodd Sian i'r pwyllgor a oedd yr holl ffederasiynau yn fodlon i gael Defaid Magu fod stoc wrth gefn yng nghystadleuaeth Stocmon y Flwyddyn, fel y trafodwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Cynigydd: Elizabeth Swancott, Maesyfed

Eilydd: Elen Williams, Morgannwg

#### 2. Diwrnod Chwaraeon – 19 Mehefin 2022

Rhannwyd rheolau'r Diwrnod Chwaraeon ar y sgrin fel y gallai'r pwyllgor eu cadarnhau.

Cadarnhaodd Sian fod y gystadleuaeth Dodgeball bellach wedi cael ei newid i sgwad o 10 i gyd-fynd â rheolau FfCCFFI.

Cytunwyd y dylid ychwanegu adran dan 21 yn y cystadlaethau athletau.

Nid oedd unrhyw faterion eraill ynghylch y Diwrnod Chwaraeon.

**Pwynt Gweithredu 5:** Bydd CFFI Cymru yn cynnwys adran dan 21 yn y cystadlaethau Athletau ac yn anfon y rheolau wedi'u cadarnhau at y ffederasiynau.

#### 3. Rheolau FfCCFFI – 2022/23

Rhannwyd rhestr cystadlaethau FfCCFFI ar y sgrin fel y gallai holl aelodau'r pwyllgor eu gweld.

Nododd Sian nad yw CFFI Cymru wedi cael copi o reolau'r cystadlaethau gan FfCCFFI.

Cytunwyd y byddai'r rheolau yn cael eu cadarnhau yng nghyfarfod mis Ionawr pe baent yn cyrraedd o FfCCFFI.

### **C/40/2022 EITEMAU AGENDA'R CYFARFOD NESAF A'R DYDDIAD**

Os bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ailgychwyn, caiff ei gynnal ar 22 Ionawr ar Faes Sioe Frenhinol Cymru cyn cyfarfod Cyngor CFFI Cymru.

Os bydd angen ei gynnal ar Zoom, y dyddiad fydd 11 Ionawr am 7yh.

Dylai eitemau'r agenda gynnwys:

- Eisteddfod 2022
- Ffair Aeaf 2022
- Sioe Frenhinol Cymru 2023

### **C/41/2022 UNRHYW FATERION ERAILL**

Rota Gwesteio – Rhannwyd y rota gwesteio ar y sgrin fel y gallai holl aelodau'r pwyllgor ei weld.

Roedd y pwyllgor yn hapus â'r rota.

Fe wnaeth y ffederasiynau sirol rannu pryderon eu haelodau ynghylch y gystadleuaeth pantomeim sydd ar ddod. Cytunwyd y gwneir y penderfyniad terfynol ynghylch y gystadleuaeth hon yn ystod cyfarfod mis Ionawr.

Nid oedd unrhyw fater arall, felly diolchodd Sian i bawb am eu hamser a'u cyfraniadau, a datganodd fod y cyfarfod ar ben am 21:09.

<b>Cam Gweithredu</b>	<b>Sylwadau</b>
Pwynt Gweithredu 1: Bydd CFFI Cymru yn anfon tystysgrifau at aelodau oedd yn llwyddiannus yn y cystadlaethau Rhithwir a'r Diwrnod Amaethyddiaeth.	Yn Disgwyl Cymeradwyaeth y Cyngor
Pwynt Gweithredu 2: Bydd y Cadeirydd yn llunio llythyr i ymateb i'r aelod ynghylch y Gystadleuaeth Wŷn i'r Cigydd.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 3: Bydd CFFI Cymru yn anfon holiaduron at gystadleuwyr y cystadlaethau Wŷn i'r Cigydd a Gwartheg Bîff Ifanc i gael adborth ynghylch y cystadlaethau.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 4: Bydd CFFI Cymru yn trafod â phwyllgor y Ffair Aeaf ynghylch y gystadleuaeth Wŷn i'r Cigydd.	Parhaus
Pwynt Gweithredu 5: Bydd CFFI Cymru yn cynnwys adran dan 21 yn y cystadlaethau Athletau ac yn anfon y rheolau wedi'u cadarnhau at y ffederasiynau.	Cwblhawyd